



Eich tîm lleol o Arbenigwyr Gofal Sylfaenol

Yn gweithio yn eich cymuned mae tîm
o weithwyr gofal iechyd proffesiynol,
arbenigol sydd wrth law i'ch helpu.



Y Bobl i'w Gweld

Gallwch **arbed amser i chi'ch** hun a derbyn y cyngor a'r gofal sydd eu hangen arnoch drwy wybod pa opsiwn yw eich Dewis Sylfaenol.

Tîm Dewis Sylfaenol

- Fferyllydd Cymunedol
- Deintyddion
- Optometryddion
- Derbynyddion Meddyg Teulu
- Nyrsys Practis Cyffredinol
- Meddyg Teulu

Angen Cyngor Gofal Iechyd?

Problemau Ceg, Dannedd neu Ddeintgig - **Deintydd yw eich Dewis Sylfaenol.**

Mae ganddynt yr arbenigedd a'r offer arbenigol i'ch helpu.



Deintydd



Problemau Llygad - **Optometrydd yw eich Dewis Sylfaenol.**

Mae gan bob un ohonynt y cymwysterau, yr offer a'r dechnoleg i'ch helpu..



Optometrydd



Ymholiadau ynglŷn â meddyginiaethau a mân anhwylderau - **Eich Fferyllydd Cymunedol yw eich Dewis Sylfaenol.**

Maent yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol, hyfforddedig a all gynnig cyngor, triniaethau dros y cownter ac sy'n meddu ar wybodaeth sylweddol am feddyginiaethau.

Ffonio eich Meddyg Teulu

Pan fyddwch yn ffonio eich Meddyg Teulu, bydd y derbynnydd yn cymryd eich galwad. Maent wedi eu hyfforddi i ofyn cwestiynau am eich anghenion gofal iechyd ac i'ch helpu i benderfynu pa weithiwr gofal iechyd proffesiynol yw eich **Dewis Sylfaenol** ar gyfer y driniaeth fwyaf priodol.

Mae gan eich practis Meddyg Teulu **dîm o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n arbenigo mewn meysydd gwahanol** i roi'r driniaeth a'r cyngor gorau i chi.

Weithiau, nid y Meddyg Teulu yw'r Dewis Sylfaenol ar gyfer eich anghenion; efallai mai'r **Nyrs Practis Cyffredinol** neu aelod arall o'r tîm gofal sylfaenol fyddai orau.



Fferyllydd Cymunedol



Derbynnydd Meddyg Teulu



Nyrs Practis Cyffredinol





Meddyg Teulu



Eich **dewis sylfaenol** yw cael **gweld yr aelod cywir o'r tîm**, er mwyn derbyn y driniaeth briodol yn **gynt**.

Drwy weld y person cywir y tro cyntaf, gall eich meddyg teulu dreulio amser yn gweld y cleifion mwyaf bregus, cymhleth a sâl.

#WeArePrimaryCare

Gwiriwr Symptomau Galw Iechyd Cymru

Os ydych yn ansicr ynglŷn â pha gyngor sydd ei angen arnoch, ewch i safle Gwiriwr Symptomau Galw Iechyd Cymru ar

www.nhsdirect.wales.nhs.uk/SelfAssessments/
neu ffoniwch **0845 46 47**



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



cardiffandvaleuhb



@CV_UHB